## Taith Fasnach y Dirprwy Brif Weinidog i Efrog Newydd a Boston

## 12 Mawrth 2008

## Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Bûm ar Daith Fasnach i gwmnïau o Gymru i Efrog Newydd a Boston rhwng 26 Chwefror a 2 Mawrth 2008, a bûm i amryw ddigwyddiadau oedd wedi'u trefnu i hyrwyddo Cymru fel gwlad i ymweld â hi a masnachu yno.

Roedd y digwyddiadau yn Wythnos Cymru yn cyd-fynd â dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, ac roeddent yn llwyfan rhagorol i ddatblygu proffil Cymru ymhellach ar draws ystod o sectorau - o fwyd i dwristiaeth - ac yn cynnig cyfleoedd masnachu a buddsoddi i'r ddwy ochr.

Roedd derbyniad gyda'r nos ar Wall Street, gyda dros 300 o gynrychiolwyr busnes dylanwadol o UDA, ac a gynhaliwyd ar y cyd gan Syr Howard Stringer, yn hynod lwyddiannus. Yn ystod y noson, cyhoeddais fod Syr Terry Matthews wedi'i benodi'r un o Hyrwyddwyr Cymru.

Trefnwyd digwyddiad yn gynharach yn y dydd i hyrwyddo busnesau gorau Cymru a rhoddwyd y cyfle i nifer o'r cwmnïau a ddaeth ar y Daith Fasnach ddangos eu cynhyrchion i fwy na 250 o weithwyr Wall Street a'r cyffiniau.

Cafodd bwydydd a diodydd gorau Cymru eu gweini yn y digwyddiadau hyn, ac fe'u defnyddiwyd i ddangos ansawdd y cynnyrch sydd ar gael o Gymru. Yn ogystal, cynhaliais ginio i awduron bwyd a theithio o bob cwr o UDA i gefnogi ein hymgyrch i roi cyhoeddusrwydd i Gymru fel gwlad o ansawdd uchel o ran bwyd, diwylliant a thwristiaeth.

Yn ogystal â chefnogi datblygiad cyfleoedd allforio i gwmnïau o Gymru, cynhaliais nifer o gyfarfodydd gyda nifer o gwmnïau i drafod buddsoddiadau posibl yng Nghymru. Er na allaf ddatgelu canlyniadau rhai o'r trafodaethau hyn ar hyn o bryd, mae'n bleser gennyf gyhoeddi y bydd cwmni newydd o'r enw Current Biodata yn creu 45 o swyddi o safon uchel.

Yn dilyn fy nghyfarfod yn Efrog Newydd gydag Ian Tarr, Prif Weithredwr Current Biodata, cyhoeddodd y cwmni y bydd yn creu canolfan ar gyfer ei olygyddion gwyddonol yn Abertawe, gan greu 45 o swyddi o ansawdd uchel i fiolegwyr a biocemegwyr ôl-raddedig ac ôl-ddoethuriaeth yn yr ardal.

Edrychodd Current Biodata ar nifer o leoliadau, gan gynnwys Singapore, ar gyfer ei brosiect ehangu, ond llwyddwyd i annog y cwmni i ddewis Cymru fel y lle i sefydlu a thyfu ei fusnes technoleg uwch.

Mae Gweinidogion yn cymryd pob cyfle i bwysleisio'r ffaith y bydd Cwpan Ryder 2010 yn cael ei gynnal yng Nghymru – a bûm yn ddigon ffodus ar yr ymweliad hwn i gael y Cwpan Ryder ei hun wrth law ar gyfer nifer o ddigwyddiadau. Mae hyn wedi helpu i dynnu sylw at asedau Cymru fel gwlad fusnes a thwristiaeth o'r radd flaenaf.

Roedd digwyddiad 2010 hefyd yn amlwg ar agenda'r cyfarfodydd y cynheliais i a Syr Terry Matthews gyda Syr Alan Collins, Prif Gonswl y DU yn Efrog Newydd.

Roedd yn bleser gennyf fynychu Cinio Blynyddol Cymdeithas Dewi Sant am y tro cyntaf, a bûm yn trafod sut mae'r aelodau'n bwriadu datblygu'r sefydliad. Cymdeithasau Dewi Sant yw'r ffordd allweddol o gyfleu negeseuon am Gymru ym mhob cwr o'r byd. Mae'n bwysig felly i Weinidogion a swyddogion roi o'u hamser i ddangos pa mor gyflym ac ar ba raddfa y mae'r newidiadau cyffrous yn digwydd yng Nghymru ar ôl datganoli.

Hefyd cynhaliais ginio i awduron a threfnwyr rhaglen gymrodoriaeth Llyfrgell Gyhoeddus Efrog Newydd. Mae'r Llyfrgell yn enwog am ei chasgliad o lyfrau eiconig. Fel mab y mans, roeddwn wrth fy modd yn cael gweld copi'r Llyfrgell o Feibl William Morgan – ac roedd yn bleser gennyf gyflwyno copi ar ran Prifysgol Cymru o Wyddoniadur Cymru sydd newydd ei gyhoeddi.

Ac fel rhywun â'r enw Jones, cymerais y cyfle i ymweld ag arddangosfa deithiol Keeping up with the Joneses ger y Gofeb Genedlaethol yn Efrog Newydd. Mae'r arddangosfa hon wedi teithio i bum lleoliad gwahanol yn yr Unol Daleithiau ac mae'n adrodd hanes y Cymry yn America. Dechreuodd y daith yn Amgueddfa Ellis Island yn Efrog Newydd ym mis Medi, lle bu oddeutu miliwn o ymwelwyr i'w gweld. Mae wedi profi'n ased gwerthfawr o ran hybu proffil Cymru.

Mae'r Unol Daleithiau wedi bod yn ganolbwynt pwysig i'r farchnad yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd – ac mae felly'n bwysig i ni gynnal cnewyllyn i hyrwyddo masnach, buddsoddiad a thwristiaeth Cymru. Dyna pam mae gan Ganolfan Ryngwladol Cymru yn Efrog Newydd rôl hanfodol i'w chwarae.

Yn olaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wastad yn awyddus i sicrhau proffil tramor uwch i'n gwlad. Mae Efrog Newydd yn enwog am fod yn lle anodd i gael sylw gan y wasg, ond mae'n bleser gennyf ddatgan y bu Wythnos Cymru yn Efrog Newydd yn llwyddiant mawr. Cafodd yr ymweliad sylw hefyd yn y wasg yng Nghymru a chafwyd sylw hefyd i'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi Map Manhattan a'r Welsh Guide to New York. Cafodd Wythnos Cymru, ei digwyddiadau a'i chynnyrch sylw estynedig yn y wasg yn Efrog Newydd, gan gynnwys pum rhestr ddigwyddiadau ac erthyglau yn Time Out New York ar gyfer yr wythnos benodol honno. Cafodd y Cwpan Ryder sylw mawr yn y wasg fusnes yn Efrog Newydd (Forbes.com a Golf.com yn arbennig) a gan AP yn Boston. Yn ogystal, rhestrwyd Wythnos Cymru a'i digwyddiadau ar wefannau dros 20 o sefydliadau oedd yn cymryd rhan ac yn cefnogi.